

Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 196(6) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU DRAFFT

2021 Rhif (Cy.)

**PLANT A PHOBL IFANC,
CYMRU**

ADDYSG, CYMRU

**Rheoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli
ac Adolygu Achosion (Cymru)
(Diwygio) 2021**

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) 2015 (O.S. 2015/1818 (Cy. 261)) ("Rheoliadau 2015") yng ngoleuni diwygiadau i adran 83 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (dccc 4) ("Deddf 2014") a wnaed gan adran 16 o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (dccc 2). Mae rheoliad 6 yn dileu'r gofyniad yn Rheoliadau 2015 fod cynllun gofal a chymorth yn cynnwys cynllun addysg personol, oherwydd bod y gofyniad hwnnw wedi ei fewnosod yn adran 83 o Ddeddf 2014. Mae rheoliad 5 yn rhagnodi'r categorïau o blant sy'n derbyn gofal nad oes cynllun addysg personol i gael ei lunio ar eu cyfer fel rhan o'u cynllun gofal a chymorth. Y categorïau a ragnodir yw'r rheini nad oedd cynllun addysg personol yn ofynnol ar eu cyfer gan Rheoliadau 2015. Nid yw'r materion y mae rhaid eu cynnwys mewn cynllun addysg personol wedi newid.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ni luniwyd aseiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Rheoliadau drafft a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan adran 196(6) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU DRAFFT

2021 Rhif (Cy.)

**PLANT A PHOBL IFANC,
CYMRU**

ADDYSG, CYMRU

**Rheoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli
ac Adolygu Achosion (Cymru)
(Diwygio) 2021**

Gwnaed

Yn dod i rym

1 Medi 2021

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 83(2B) a (5), 84(b) a 196(2) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014(1), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Yn unol ag adran 196(6) o'r Ddeddf honno, gosodwyd drafft o'r Rheoliadau hyn gerbron Senedd Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad(2).

-
- (1) 2014 decc 4. *Gweler* adran 197(1) am y diffiniad o "rheoliadau". Mewnosodwyd adran 83(2A) i (2D), ac mae adran 83(5) ac is-adrannau eraill o adran 83 wedi eu diwygio, gan adran 16 o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (decc 2). Diwygiwyd adran 196(6) gan baragraff 24(1) a (4) o Atodlen 1 i Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018.
- (2) Y rhain yw'r rheoliadau cyntaf a wneir o dan adran 83(2B). Mae'r cyfeiriad yn adran 196(6) at Gynulliad Cenedlaethol Cymru bellach yn cael effaith fel cyfeiriad at Senedd Cymru yn rhinwedd adran 150A(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) (Diwygio) 2021 a deuant i rym ar 1 Medi 2021.

Diwygio Rheoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) 2015

2. Mae Rheoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) 2015(1) wedi eu diwygio fel y darperir ar eu cyfer yn rheoliadau 3 i 6.

Diwygiad i reoliad 2

3. Yn y diffiniad o “cynllun addysg personol” yn rheoliad 2(1)(2), yn lle “yn rheoliad 5(b)(ii)” rhodder “gan adran 83(2A) o Ddeddf 2014(3)”.

Diwygiad i reoliad 3

4. Yn rheoliad 3, yn lle “Nid yw'r Rheoliadau hyn” rhodder “Nid yw Rhannau 2 i 10”.

Mewnosod Rhan 1A

5. Ar ôl rheoliad 3 mewnosoder—

“RHAN 1A

PLANT NAD OES CYNLLUN ADDYSG PERSONOL I GAEL EI LUNIO AR EU CYFER

3A. Rhagnodir y categorïau a ganlyn o blentyn sy'n derbyn gofal at ddibenion adran 83(2B) o Ddeddf 2014—

- (a) unrhyw blentyn sydd wedi ei leoli ar gyfer ei fabwysiadu o dan Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002(4) oni bai bod y plentyn yn dod o fewn rheoliad 56;
- (b) unrhyw blentyn y mae'r amgylchiadau a nodir yn rheoliad 62(2) yn gymwys mewn perthynas ag ef;
- (c) unrhyw blentyn nad yw ond yn derbyn gofal oherwydd ei fod ar remánd i lety cadw ieuencid.”

(1) O.S. 2015/1818 (Cy. 261).
(2) Mae diwygiadau i reoliad 2 nad ydynt yn berthnasol.
(3) Mewnosodwyd adran 83(2A) gan adran 16 o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018.
(4) 2002 p. 38.

Diwygiadau i reoliad 5

6. Yn rheoliad 5—

- (a) hepgorer paragraff (1)(b)(ii);
- (b) ar ôl paragraff (1) mewnosoder—
 - “(1A) Rhaid i’r cynllun addysg personol (gweler adran 83(2A) i (2D) o Ddeddf 2014) gynnwys yr wybodaeth a nodir ym mharagraff 2 o Atodlen 2.”

Enw

Gweinidog y Gymraeg ac Addysg, un o Weinidogion
Cymru
Dyddiad